# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**2016 dccc 3**

## RHAN 1

RHEOLI CYNALIADWY AR ADNODDAU NATURIOL

*Gweithredu'r polisi cenedlaethol ar sail ardaloedd*

### 14 Dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ddarparu gwybodaeth neu gymorth arall i CNC

(1) Os yw CNC yn gofyn i gorff cyhoeddus ddarparu gwybodaeth i CNC sy'n ofynnol ganddo at ddiben arfer swyddogaethau o dan adran 8 neu 11, rhaid i'r corff cyhoeddus ddarparu'r wybodaeth oni bai bod y corff cyhoeddus wedi ei wahardd rhag ei darparu yn rhinwedd deddfiad neu unrhyw reol gyfreithiol arall.

(2) Os yw CNC yn gofyn i gorff cyhoeddus arfer ei swyddogaethau i ddarparu cymorth arall i CNC sy'n ofynnol gan CNC at ddiben arfer swyddogaethau o dan adran 8 neu 11, rhaid i'r corff cyhoeddus ddarparu'r cymorth oni bai bod y corff cyhoeddus yn ystyried y byddai gwneud hynny—

(a) yn anghydnaws â dyletswyddau'r corff cyhoeddus ei hun, neu

(b) yn cael effaith andwyol fel arall ar arfer swyddogaethau'r corff cyhoeddus.

(3) Mae'r dyletswyddau ar gorff cyhoeddus yn is-adrannau (1) a (2) hefyd yn ddyletswyddau ar Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, ond nid ydynt ond yn gymwys i'r Comisiynydd os yw'r wybodaeth neu gymorth arall yn ofynnol er mwyn cynhyrchu adroddiad o dan adran 8 ar gyflwr adnoddau naturiol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 14 mewn grym ar 21.5.2016, gweler **a. 88(2)(a)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 06/04/2024.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Adran 14.